Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Cymunedau dysgu proffesiynol

Canllawiau

Dogfen canllawiau rhif: 108/2013
Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2013
Yn disodli dogfen ganllawiau rhif: 062/2011

Cymunedau dysgu proffesiynol

Cynulleidfa	Holl ymarferwyr sy'n dysgu mewn lleoliadau addysgol yng Nghymru.
Trosolwg	I ddarparu holl ymarferwyr addysgol â throsolwg o'r model cenedlaethol ar gyfer cymunedau dysgu proffesiynol.
Camau i'w cymryd	Dim – er gwybodaeth yn unig.
Rhagor o wybodaeth	Cysylltwch â'r blwch e-bost Cymunedau dysgu proffesiynol: PLC@cymru.gsi.gov.uk
Copïau ychwanegol	Dogfen ar-lein yn unig yw hon a gallwch gael mynediad iddi o wefan Llywodraeth Cymru yn dysgu.cymru.gov.uk/eichgyrfa Os ydych angen fformat gwahanol, cysylltwch â'r blwch e-bost uchod.
Dogfennau cysylltiedig	*Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion* (2008)

ISBN digidol 978 0 7504 9629 2
© Hawlfraint y Goron 2013
WG19141

Cynnwys

Cymunedau dysgu proffesiynol (CDPau) – y cyd-destun cenedlaethol **2**

Pam cael cymuned ddysgu broffesiynol? **4**

Beth yw cymuned ddysgu broffesiynol? **5**

Model cenedlaethol cymuned ddysgu broffesiynol **7**

Cwestiynau cyffredin **12**

Cyfeiriadau **15**

Cymunedau dysgu proffesiynol (CDPau) – y cyd-destun cenedlaethol

Mae'r Gweinidog dros Addysg a Sgiliau wedi amlinellu rhaglen heriol ac uchelgeisiol ar gyfer diwygio ysgolion. Mae Llywodraeth Cymru ynghyd â'i phartneriaid yn gweithio i geisio trawsnewid a llunio'r system addysg ar gyfer y dyfodol.

Mae ein ffocws ar gyfer gwella'r system addysg yng Nghymru wedi'i seilio ar dair blaenoriaeth gydgysylltiedig:

- gwella lefelau llythrennedd
- gwella lefelau rhifedd
- lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol.

Mae'r blaenoriaethau hyn yn seiliedig ar y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion (FfEY), sef ein polisi cyffredinol ar gyfer gwella cyrhaeddiad a darpariaeth addysgol yng Nghymru. Mae pob un o'n polisïau eraill yn cyd-fynd â'r fframwaith hwn. Mae'r FfEY yn ymwneud â'r system addysg ysgol gyfan – ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru yn cydweithio er mwyn:

- gwella deilliannau dysgu a lles i bob plentyn a pherson ifanc waeth beth fo'u cefndir economaidd-gymdeithasol
- lleihau'r amrywiaeth yn y deilliannau dysgu o fewn a rhwng ystafelloedd dosbarth, ysgolion ac awdurdodau lleol.

Er mwyn cefnogi'r nodau hyn rydym wedi datblygu system integredig sy'n dwyn ynghyd safonau proffesiynol, datblygiad proffesiynol a rheoli perfformiad. Y strwythur newydd hwn yw'r model Adolygu a Datblygu Ymarfer (ADY) ac mae'n gymwys i weithlu'r ysgol gyfan gan gynnwys athrawon, penaethiaid a staff cymorth.

Pwrpas craidd ADY yw cyfrannu at yr agenda gwella ysgolion i Gymru drwy ddarparu strwythur clir gan sicrhau fod safonau proffesiynol, rheoli perfformiad a gwaith datblygiad proffesiynol yn gweithio gyda'i gilydd fel un system, yn hytrach nag fel elfennau unigol, ar wahân.

Mae'r model ADY yn cydnabod bod datblygiad proffesiynol yn fwyaf pwerus pan fydd yn canolbwyntio ar hyfforddi a mentora, ymarfer myfyriol, ymchwil weithredol a chymryd rhan mewn CDPau. Disgwylir i bob ymarferydd yng Nghymru ddefnyddio'r dulliau hyn i ateb eu hanghenion datblygiad proffesiynol eu hunain.

Cymunedau dysgu proffesiynol
Dogfen canllawiau rhif: 108/2013
Gorffennaf 2013

Mae cymryd rhan mewn CDPau o fewn a'r tu hwnt i'r ysgol hefyd yn gwneud cyfraniad arwyddocaol at adeiladu gallu'r ysgol i wella'n barhaus yn enwedig yng nghyd-destun y ffocws cenedlaethol ar lythrennedd, rhifedd a mynd i'r afael ag anfantais.

Cymunedau dysgu proffesiynol

Dogfen canllawiau rhif: 108/2013

Gorffennaf 2013

Pam cael cymuned ddysgu broffesiynol?

Mae tystiolaeth ymchwil yn tynnu sylw'n gyson at bwysigrwydd dysgu rhyngddibynnol a chydweithio fel y conglfaen ar gyfer gwella ysgolion a datblygiad proffesiynol effeithiol. Mae'n pwysleisio pan fydd athrawon yn ymchwilio ar y cyd i ffyrdd o oresgyn rhwystrau i addysg eu myfyrwyr **nhw**, gall y canlyniadau fod yn ddramatig. Gall gweithio fel hyn, ar ffurf cymuned ddysgu broffesiynol, gynnig nifer o fanteision ond yn bwysicaf oll, os yw'n cael ei wneud yn dda, gall CDPau wella deilliannau i ddysgwyr (Verscio et al, 2008, Saunders et al, 2009). Yn ogystal, mae rhwydweithiau o CDPau (rhwng ac ar draws ysgolion) yn cynnig modd i'r grwpiau ehangu eu harbenigedd a rhannu eu hymarferion mwyaf effeithiol.

Mae tystiolaeth ymchwil helaeth yn dangos bod athrawon sy'n rhan o gymuned ddysgu broffesiynol yn tueddu i fod yn fwy effeithiol yn yr ystafell ddosbarth a chael deilliannau myfyrwyr gwell (Lewis ac Andrews, 2004). Gall CDPau hefyd wella dysgu proffesiynol athrawon a sicrhau perfformiad ysgol gwell, waeth beth fo cyd-destun yr ysgol a'i phroffil economaidd-gymdeithasol (Elmore, 2002; Goldenberg, 2004).

Yn fyr, mae cymuned ddysgu broffesiynol yn gweld athrawon[1] yn ymholi'n gydweithredol i bwnc neu broblem arbennig, gyda'r prif nod o newid ymarferion proffesiynol er mwyn gwella'r addysg a'r dysgu sy'n dilyn (Dufour et al, 2009). Gellir crynhoi diben CDdB mewn tri gair – 'gwella deilliannau dysgwyr' (Harris a Jones, 2010).

[1] Noder – gall cymuned ddysgu broffesiynol gynnwys staff ychwanegol yn yr ysgol hefyd sy'n gyfrifol am gefnogi dysgu ac addysgu.

Beth yw cymuned ddysgu broffesiynol?

Diffiniad cytûn Llywodraeth Cymru o cymuned ddysgu broffesiynol yw:

> Mae CDdB yn grŵp o ymarferwyr sy'n cydweithio gan ddefnyddio proses strwythuredig o ymholi i ganolbwyntio ar faes penodol o'u haddysgu er mwyn gwella deilliannau dysgwyr ac felly codi safonau ysgolion.

Drwy ei weithredu'n gyson gan ddefnyddio'r model cenedlaethol, mae gan CDPau y potensial i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i ddeilliannau dysgwyr yn ogystal â gwella ansawdd dysgu proffesiynol. Os yw CDPau yn mynd i wneud gwahaniaeth i berfformiad ysgolion a deilliannau dysgwyr, mae'n rhaid i'r cyfranogwyr ymroi i ddysgu cydweithredol a rhyngddibynnol. Mae'n rhaid iddyn nhw:

- gael y cyfrifoldeb i roi cynnig ar strategaethau dysgu ac addysgu newydd er mwyn ymestyn eu datblygiad proffesiynol a'u dysgu eu hunain
- ymholi fel grŵp er mwyn cynhyrchu gwybodaeth a dealltwriaeth broffesiynol newydd
- gweithredu'r atebion dysgu ac addysgu mwyaf effeithiol.

Mae risg y gallai CDPau gael eu cam-gynrychioli fel dull cyfleus 'dal popeth' ar gyfer unrhyw fath o gydweithio, partneriaeth neu rwydweithio, waeth pa mor effeithiol neu aneffeithiol y bo'r rheiny. Oni bai bod CDPau yn cael eu llunio'n briodol gan ddefnyddio'r model cenedlaethol, ni fyddan nhw'n cael effaith ar y deilliannau dysgu a ddymunir. Mae ailenwi grwpiau sy'n bod, megis adrannau, gweithgorau neu dimau cwricwlwm presennol fel CDPau yn gamarweiniol ac ni fydd yn gwneud rhyw lawer i wella perfformiad ysgolion neu newid ymarferion ystafell ddosbarth.

Mae'r tabl canlynol ar dudalen 6 yn crynhoi beth yw cymuned ddysgu broffesiynol.

Cymunedau dysgu proffesiynol
Dogfen canllawiau rhif: 108/2013
Gorffennaf 2013

Cymuned ddysgu broffesiynol
Grŵp o weithwyr proffesiynol sy'n gweithio fel tîm i fynd i'r afael ag anghenion dysgwyr penodol sy'n codi o ddadansoddi data/tystiolaeth.
Dewis ffocws ymholi ac aelodaeth o'r grŵp.
Hollbwysig i gynhyrchu syniadau ac ymarferion newydd.
Gweithredu gyda chylch clir o ymholi gweithredol.
Arweinyddiaeth wedi'i lledaenu'n eang a'r grŵp yn dewis ei hwylusydd ei hun.
Pob aelod yn atebol ar gyfer canlyniadau'r gymuned ddysgu broffesiynol – atebolrwydd cytbwys.
Diddymu ac yn ailffurfio gyda ffocws newydd ar ymholi ac aelodaeth newydd.
Asesu ei heffaith yn uniongyrchol ar ddeilliannau dysgwr ac yn gyfrifol am rannu'r deilliannau hyn ag eraill.
Dysgu annibynnol a rhyngddibynnol. Myfyrio ar ddysgu unigol a dysgu ar y cyd yn seiliedig ar dystiolaeth.

Model cenedlaethol cymuned ddysgu broffesiynol

Mae'r model cymuned ddysgu broffesiynol yn cynnwys saith cam sy'n eich tywys trwy'r broses cymuned ddysgu broffesiynol.

Mae CDPau effeithiol yn dilyn pob cam o'r model cenedlaethol. Mae'r wybodaeth ar y tudalennau canlynol yn egluro pob cam ymhellach, gan gynnwys diffiniad o ystyr pob cam.

Cliciwch ar bob cam am ragor o wybodaeth.

Cymunedau dysgu proffesiynol

Dogfen canllawiau rhif: 108/2013

Gorffennaf 2013

Cam 1: Sefydlu'r grŵp

Diffiniad	Disgwyliadau
Yn ystod y cam hwn, defnyddir data i benderfynu ar gyfansoddiad y grŵp ac mae gan bob cyfranogwr ddealltwriaeth gyffredin o'r model cenedlaethol cymuned ddysgu broffesiynol ac yn cytuno ar gyfrifoldebau o fewn y gymuned ddysgu broffesiynol.	Cyn symud ymlaen i'r cam nesaf, ydych chi wedi . . . • ystyried data? • rhannu'r model cenedlaethol â'r holl gyfranogwyr? • cytuno pwy fydd yn ymgymryd â rôl yr hwylusydd? • cytuno beth fydd yn digwydd mewn cyfarfodydd dilynol? • cytuno ar ymarferion gweithio ar gyfer y gymuned ddysgu broffesiynol?

Cam 2: Gosod ffocws

Diffiniad	Disgwyliadau
Yn ystod y cam hwn, bydd y gymuned ddysgu broffesiynol yn adnabod pwnc neu broblem arbennig ar gyfer grŵp o ddysgwyr, yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r data.	Cyn symud ymlaen i'r cam nesaf, ydych chi wedi . . . • cytuno ar gwestiwn â ffocws, penodol, mesuradwy i'w ymholi? • sicrhau bod eich cwestiwn i'w ymholi yn gysylltiedig â deilliannau dysgwyr? • sefydlu meini prawf llwyddiant i asesu a mesur effaith ar ddeilliannau dysgwyr?

Mae camau 1 a 2 yn rhyngddibynnol.

Cymunedau dysgu proffesiynol
Dogfen canllawiau rhif: 108/2013
Gorffennaf 2013

Cam 3: Ymholi gweithredol

Diffiniad	Disgwyliadau
Yn ystod y cam hwn, sy'n hollbwysig i lwyddiant y gymuned ddysgu broffesiynol, bydd y cyfranogwyr wedi ymchwilio i'r strategaethau posibl a allai wella ymarferion a deilliannau dysgwyr.	Cyn symud ymlaen i'r cam nesaf, ydych chi wedi . . . • ystyried ymchwil bresennol, seiliedig ar dystiolaeth ar eich cwestiwn i'w ymholi? • cytuno ar gyfres o weithgareddau ymholi er mwyn adnabod strategaethau posibl a allai wella deilliannau dysgwyr? • adnabod data/tystiolaeth i'w chasglu er mwyn gwerthuso effaith y strategaethau a'r dulliau rydych wedi'u dewis?

Cam 4: Arloesi a newid

Diffiniad	Disgwyliadau
Yn ystod y cam hwn, mae'r strategaethau a nodwyd drwy'r ymholi yn cael eu rhannu â chyfranogwyr y gymuned ddysgu broffesiynol. Mae'r strategaeth a nodwyd fel yr un a fydd yn cael yr effaith fwyaf posibl yn cael ei dewis i'w threialu. Cytuno ar y newidiadau angenrheidiol i gefnogi'r cam treialu yn yr ysgol.	Cyn symud ymlaen i'r cam nesaf, ydych chi wedi . . . • sicrhau bod pob cyfranogwr wedi ystyried y strategaethau posibl ac wedi cyrraedd consensws ynghylch y strategaeth i'w threialu? • ystyried sut y gellid goresgyn y rhwystrau i dreialu a newid?

Cymunedau dysgu proffesiynol
Dogfen canllawiau rhif: 108/2013
Gorffennaf 2013

Cam 5: Treialu ac adborth

Diffiniad	Disgwyliadau
Yn ystod y cam hwn, mae'r strategaeth neu'r strategaethau ar gyfer gwella yn cael eu treialu. Cynnydd ac adborth yn cael eu rhannu gan gyfranogwyr y gymuned ddysgu broffesiynol.	Cyn symud ymlaen i'r cam nesaf, ydych chi wedi . . . • treialu'r strategaeth neu'r strategaethau cytûn ar gyfer gwella? • casglu data/adborth dros dro ar effaith newidiadau i ymarferion ystafell ddosbarth? • rhannu data ac adborth ar effaith newidiadau i ymarferion ystafell ddosbarth?

Cam 6: Mireinio

Diffiniad	Disgwyliadau
Yn ystod y cam hwn, bydd y gymuned ddysgu broffesiynol yn mireinio neu'n newid pwyslais strategaethau sydd wedi'u treialu yn seiliedig ar y data/tystiolaeth a gasglwyd.	Cyn symud ymlaen i'r cam nesaf, ydych chi wedi . . . • ystyried effeithiolrwydd y strategaethau sy'n cael eu treialu, yn seiliedig ar y data a'r dystiolaeth a gasglwyd ac a rannwyd? • ystyried mireinio neu newid pwyslais strategaethau i sicrhau'r effaith a'r effeithiolrwydd mwyaf posibl? • parhau i dreialu'r strategaethau dros gyfnod o amser ac mewn amryw o gyd-destunau? • parhau i gasglu data a thystiolaeth ar effaith y strategaeth neu'r strategaethau?

Cymunedau dysgu proffesiynol
Dogfen canllawiau rhif: 108/2013
Gorffennaf 2013

Cam 7: Rhannu canlyniadau

Diffiniad	Disgwyliadau
Yn ystod y cam hwn, mae canlyniadau, effaith ac argymhellion y gymuned ddysgu broffesiynol yn cael eu rhannu â'r staff, llywodraethwyr, rhieni/gofalwyr ac, os yw'n briodol, ysgolion eraill ar gyfer gweithredu.	Cyn cwblhau'r broses, ydych chi wedi . . . • arddangos y canlyniadau mesuradwy, penodol sy'n deillio o waith y gymuned ddysgu broffesiynol? • rhannu'r canlyniadau a'r effaith â staff, llywodraethwyr, rhieni/gofalwyr ac, os yw'n briodol, ysgolion eraill? • Gwneud argymhellion yn seiliedig ar effaith a chanlyniadau i staff, llywodraethwyr, rhieni/gofalwyr ac, os yw'n briodol, ysgolion eraill ar gyfer gweithredu?

Cwestiynau cyffredin

C1. Sut ydw i'n dechrau cymuned ddysgu broffesiynol?

Defnyddio data i adnabod pwnc neu broblem arbennig ar gyfer grŵp o ddysgwyr. Sefydlu grŵp o gyfranogwyr er mwyn ymholi i ffyrdd o ddatrys y pwnc neu'r broblem. Penodi hwylusydd y grŵp. Cytuno ar gyfres o weithgareddau ymholi neu ymchwil.

C2. Beth yw rôl hwylusydd y gymuned ddysgu broffesiynol?

Mae hwylusydd y gymuned ddysgu broffesiynol yn hollbwysig i lwyddiant a chynaliadwyedd y gymuned ddysgu broffesiynol. Dylai:

- ddarparu lefelau priodol o gymorth a her ar gyfer y gymuned ddysgu broffesiynol
- sicrhau bod cyflymdra, momentwm a brwdfrydedd yn cael eu cynnal
- cadw ffocws y gymuned ddysgu broffesiynol a sicrhau ei bod ar y trywydd iawn
- brocera adnoddau
- rheoli cysylltiadau a rhwydweithio.

C3. Pa fath o ddata alla i ei ddefnyddio?

Heb ddefnyddio data ni allwch asesu effaith eich cymuned ddysgu broffesiynol ar ddeilliannau dysgwyr. Mae'r math o ddata y dylech ei ddefnyddio i ganolbwyntio ar wella ysgolion i'w weld yn y canlynol:

- Setiau Data Craidd Cymru Gyfan ac adroddiadau Gwybodaeth Gymharol Ysgolion, gan gynnwys teulu o ysgolion a data perfformiad cymharol ar gyfer grŵp dosbarth/blwyddyn, pwnc a dangosyddion allweddol.

C4. Ble ydw i'n cael y data hwn?

Mae ar gael ym mhob ysgol trwy eich Tîm Uwch Arweinwyr.

C5. Pa mor fawr ddylai grŵp cymuned ddysgu broffesiynol fod?

Yn ddelfrydol ni ddylai fod mwy na chwe i wyth aelod o gymuned ddysgu broffesiynol oherwydd mae hyn yn sicrhau cyfraniad effeithiol gan bob cyfranogwr. Os yw'r nifer yn llai na thri neu bedwar aelod o staff efallai na fydd digon o ddyfnder neu her o fewn y tîm.

C6. A ddylai'r pennaeth gymryd rhan yn y gymuned ddysgu broffesiynol?

Dylai penaethiaid gefnogi'r model cenedlaethol. Bydd y cwestiwn i'w ymholi yn pennu a ddylai'r pennaeth fod yn gyfranogwr neu beidio.

C7. Pwy sy'n arwain/hwyluso'r gymuned ddysgu broffesiynol?

Gallai unrhyw aelod o'r gymuned ddysgu broffesiynol fod yn hwylusydd. Nid yw'n dibynnu ar rolau neu strwythurau presennol yn yr ysgol.

C8. Sut ydw i'n mesur effaith?

Bydd y mesurau effaith yn ymwneud yn uniongyrchol â'r ffocws neu'r cwestian arbennig i'w ymholi y mae'r gymuned ddysgu broffesiynol yn ei ystyried. I gychwyn, bydd yr effaith yn cael ei mesur yn nhermau newidiadau mewn ymarferion addysgu/ystafell ddosbarth. Wedi hynny, dylai'r newidiadau hyn mewn ymarferion ystafelloedd dosbarth addysgu arwain at wella deilliannau dysgu y gellir eu mesur. Dylai data ansoddol a meintiol gael ei gasglu.

C9. Am faint ddylai cymuned ddysgu broffesiynol bara?

Mae cylch oes cymuned ddysgu broffesiynol yn cael ei bennu gan ddyfnder yr ymchwil y disgwylir i'r tîm ymgymryd ag ef ond fel arfer ni fydd yn para mwy na blwyddyn oherwydd bydd y garfan o fyfyrwyr yn newid bob blwyddyn a, thrwy gysylltiad, bydd y pwnc/ffocws sy'n gysylltiedig â'r dysgwyr hynny yn newid hefyd.

C10. Beth sy'n digwydd mewn cyfarfodydd cymuned ddysgu broffesiynol?

Mae'r hwylusydd yn sicrhau bod y cyfarfod yn cadw at y dasg. Mae pob cyfranogwr yn adrodd i'r gymuned ddysgu broffesiynol ar y cynnydd a wnaed. Darperir cyfleoedd i drafod problemau neu anawsterau penodol. Cytunir ar yr hyn mae angen ei wneud cyn y cyfarfod nesaf.

C11. Sut ydych chi'n rhannu canlyniadau?

Gellir defnyddio amryw o fformatau, gan gynnwys adroddiadau i lywodraethwyr, cymryd rhan mewn rhaglen HMS staff ac adroddiadau ysgrifenedig.

C12. Beth os yw'r gymuned ddysgu broffesiynol yn colli ffocws?

Dyma pryd mae rôl yr hwylusydd yn hollbwysig i sicrhau bod tîm y gymuned ddysgu broffesiynol yn canolbwyntio ac yn cynnal ei frwdfrydedd.

C13. Beth os yw'r cwestiwn i'w ymholi yn rhy eang?

Os yw'r ffocws yn rhy eang mae'n rhaid i'r grŵp fireinio'n barhaus yng Nghymal 2 hyd nes ei fod yn ddigon manwl i'r grŵp ei ystyried. Felly, er enghraifft, mae 'gwella llythrennedd' yn rhy eang ac yn dasg sy'n rhy fawr ar gyfer cymuned ddysgu broffesiynol.

C14. O ble daw'r amser?

Bydd ysgolion yn dyrannu amser ac adnoddau ar adegau gwahanol o'r flwyddyn yn ôl yr angen. Er enghraifft, defnyddio datblygu staff/DPP/arian i gefnogi ymweliadau ysgol, a defnyddio amser hyfforddiant mewn swydd penodedig ar gyfer gwaith cymuned ddysgu broffesiynol.

C15. All cymuned ddysgu broffesiynol fethu?

Ni all fethu oherwydd drwy'r broses bydd rhywfaint o ddysgu wedi digwydd hyn yn oed os nad yw hynny'n ymwneud â'r canlyniadau a fwriedir.

Cyfeiriadau

'New Insights into Professional Learning Communities at Work', R DuFour, R Dufour a B Eaker (2009) yn The Challenge of Change, M Fullan (Corwin Press, CA, 2009)

Bridging the gap between standards and achievement: The imperative for professional development in education, R F Elmore, (Washington DC, Albert Shanker Institute, 2002)

Successful school change: Creating settings to improve teaching and learning, C Goldenberg (New York, Teachers College Press, 2004)

Professional Learning Communities in Action, A Harris a M Jones (Llundain, Leannta Press, 2010)

'Building sustainable futures: emerging understandings of the significant contribution of the professional learning community', M Lewis a D Andrews, Improving Schools, 7(2), (2004) (td 129–150)

'Increasing Achievement by Focusing Grade Level Teams on Improving Classroom Learning: A Prospective Quasi-Experimental Study of Title 1 Schools', W Saunders, C Goldenberg a R Gallimore, American Educational Research Journal (ar-lein, 26 Awst 2009)

'A review of research on the impact of professional learning communities on teaching practice and student learning', V Verscio, D Ross, ac A Adams, Teaching and Teacher Education, 21, 2008 (td 80–91)

How the world's best-performing school systems came out on top, M Barber a M Mourshed (Mckinsey and Company, 2007) Ar gael ar-lein yn www.mckinseyonsociety.com/how-the-worlds-best-performing-schools-come-out-on-top/

Cymunedau dysgu proffesiynol

Dogfen canllawiau rhif: 108/2013

Gorffennaf 2013